


Eglurhad Datganiad Tâl Gwasanaeth



Grŵp Cynefin



0300 111 2122



post@grwpcynefin.org



www.grwpcynefin.org



[@grwpcynefin](https://www.facebook.com/grwpcynefin)



[@Grwp_Cynefin](https://twitter.com/Grwp_Cynefin)

Beth yw tâl gwasanaeth?

Tâl gwasanaeth yw cost gwasanaethau neu fuddion a ddarperir yn benodol ar gyfer eich tŷ neu'ch fflat na ellir eu cynnwys yn y rhent. Er enghraifft, os ydych yn byw mewn fflat gyda gardd gymunedol y mae gennych ddefnydd ohoni, caiff eich cyfran chi o gost cynnal a chadw'r ardd ei chynnwys yn y tâl gwasanaeth fel yr holl breswylwyr eraill sy'n elwa ar y gwasanaethau a ddarperir.

Enghraifft arall fyddai gwaith glanhau a chynnal a chadw unrhyw fan cymunedol fel cyntedd mynediad, grisiau neu lifft. Byddai eich cyfran chi o'r gost hon yn cael ei chynnwys yn y tâl gwasanaeth.

Sut caiff y tâl gwasanaeth ei gyfrifo?

Rydym yn defnyddio proses tâl gwasanaeth 'newidiol' fel y'i diffinnir o dan Adran 18 o'r Ddeddf Landlord a Tenant 1985, sy'n golygu ein bod yn edrych ar gostau'r tair blynedd diwethaf, ac yn defnyddio'r costau cyfartalog i gyfrifo'r tâl gwasanaeth ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

Mae swm o £0.00 ar eich datganiad yn nodi naill ai nad yw gwasanaeth penodol yn cael ei ddarparu ar gyfer eich eiddo, neu nad oes unrhyw gostau'n gysylltiedig.



Disgrifiad	Eglurhad
Yswiriannau	Gellir trafod yswiriant cynnwys ar gyfer manau cymunedol gyda Grŵp Cynefin.
Costau Prydles / Rhent Tir	Weithiau mae gennym brydles ar eiddo ac mae'r landlord yn codi rhent blynyddol.
Ffi Rheoli	Rheoli a gweinyddu gweithgareddau tâl gwasanaeth, sy'n cynnwys, er enghraifft, paratoi costau, taliadau ar y cyd, a mynychu cyfarfodydd. Nid yw'r ffi hon yn berthnasol i unrhyw elfennau o ddibrisiant. Mae'r ffi reoli ar hyn o bryd yn 13% (Polisi Tâl Gwasanaeth).
Glanhau'r Bin	Glanhau'r biniau Cymunedol yn rheolaidd.
Gwastraff Swmpus	Costau yr eir iddynt wrth waredu eitemau gwastraff swmpus o ardaloedd cymunedol.
Glanhau Dodrefn	Glanhau unrhyw ddodrefn a ddarperir mewn manau cymunedol.
Trydan	Darparu golau a/neu bŵer i ardaloedd mewnol a ddefnyddir yn gyffredin y tu allan i'r cartref (cynteddau, coridorau, grisiau ac ystafelloedd cymunedol) yn cynnwys goleuadau argyfwng, pŵer i gyfleusterau golchi dillad, lifftiau a chyfleusterau tebyg eraill.
Glanhau Ffenestri Allanol	Glanhau ffenestri cymunedol (y tu mewn a thu allan) yn cynnwys deunyddiau, offer, staffio a chontractwyr.
Nwy	Ar gyfer darparu gwres mewn unrhyw fannau cymunedol.
Glanhau mewnol	Gwaith glanhau a gofalu am fannau cymunedol yn cynnwys deunyddiau, offer, staffio a chontractwyr.
Tirlunio	Gwaith cynnal a chadw'r dirwedd a'r manau cymunedol o amgylch blociau neu erddi cymunedol yn cynnwys torri gwair a choed, gwelyau blodau, chwynnu, a chynnal a chadw gwrychoedd a llwyni. Gall gynnwys codi ysbwriel neu lanhau llwybrau. Prynu offer yn lle hen rai sy'n berchen i'r gymdeithas dai. Glanhau / brwsio manau cymunedol allanol.
Cynnal a Chadw Liffd Teithwyr / Nwyddau	Cynnal a chadw, glanhau, trwsio, yswiriant a gwaith trwsio sylweddol neu osod lift newydd, gan gynnwys lifftiau grisiau mewn manau cymunedol.
Rhent Llinell Ffôn	Ar gyfer cysylltu â chyfleusterau fel Teledu Cylch Cyfyng (TCC), system mynediad drws.
Ffi Trwydded Deledu	Y ffi ar gyfer unrhyw gyfleusterau teledu cymunedol.
Rhentu Relay Teledu / SKY	Darparu offer (fel erialau neu fastiau) i gael mynediad i deledu a radio am ddim, gan gynnwys gwasanaethu a thrwsio. Ar gyfer offer cymunedol hefyd.
Dŵr	Cyfraddau dŵr mewn ardaloedd cymunedol. Os yw'r cytundeb tenantiaeth yn nodi bod y landlord yn talu'r costau dŵr Cymunedol ac y gellir eu had-dalu drwy'r tâl

	gwasanaeth. Ar gyfer cyfleusterau storio dŵr canolog, byddwn yn profi'r dŵr yn gyfnodol ar gyfer legionella.
Cynnal a Chadw Offer y Golchdy	Cynnal a chadw a thrwsio offer golchi cymunedol (fel peiriannau golchi, peiriannau sychu) yn cynnwys cyfraddau dŵr ar gyfer yr offer hwn.
Dodrefn a Charpedi	Cynnal a chadw, glanhau a thrwsio dodrefn a charpedi mewn ystafelloedd a manau cymunedol. Mae hyn hefyd yn cynnwys offer gwneud te fel tegellau.
TCC / Larwm Lladron	Monitro gweithgareddau o fewn y cynllun/stad, i fonitro diogelwch neu unrhyw ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y stâd.
Dodrefn Cymunedol	Cynnal a chadw, gwasanaethu ac adnewyddu dodrefn a llenni / cysgodlenni.
Nwyddau Gwyn Cymunedol	Cynnal a chadw, gwasanaethu ac adnewyddu nwyddau fel oergelloedd.
System Mynediad Drws / Intercom	Gwasanaethu, trwsio ac ailosod system neu offer mynediad drws, gan gynnwys allweddi, cardiau allwedd, mecanwaith cloi bysellbad a ffôn mynediad drws.
System Larwm Galwadau Brys	Cynnal, gwasanaethu ac adnewyddu offer Telecare yn y cartref ac o fewn cyfleusterau cymunedol.
Diffodd Tân / Offer Datguddio / Goleuo Argyfwng	Gwasanaethu, cynnal profion cyfnodol, trwsio ac ailosod offer diffodd tân a datguddio newydd gan gynnwys asesiadau risg tân rheolaidd ar gyfer ardaloedd cymunedol. Cynnal a chadw, gwasanaethu ac adnewyddu cyfleusterau diogelu'r adeilad rhag mell.
Dodrefn Swyddfa	Cynnal a chadw ac adnewyddu dodrefn swyddfa mewn cyfleusterau gofal ychwanegol a thai cysgodol.
Offer Arbenigol / Addasiadau	Costau trwsio a chynnal a chadw addasiadau mewn anheddau fel lifftiau grisiau, teclynnau codi, a baddonau mecanyddol.
Generadur Argyfwng	Cynnal a chadw, gwasanaethu ac adnewyddu generadur argyfwng ar gyfer cyfleusterau cymunedol.
Profion PAT	Profi offer cludadwy ar gyfer nwyddau trydanol mewn manau cymunedol.
Hylendid Dŵr	Profi am legionella gan gynnwys asesu risg, gwaith adferol a phroffion cyfnodol yn y dyfodol.
Cynnal a Chadw System Chwistrellu	Cynnal a chadw, gwasanaethu ac adnewyddu cyfleusterau system chwistrellu dŵr yn y rhannau cymunedol o'r adeilad.
Gwasanaethau Band Eang / Rhyngwyd	Darparu a chynnal a chadw cysylltiad Wi-Fi mewn ardaloedd cymunedol.
Gwasanaethau Arlwy	Cost ar gyfer prydau bwyd bob dydd. (Cynlluniau Tai Gofal Ychwanegol yn unig). Nid yw'r costau hyn yn gymwys ar gyfer Budd-dal Tai na Chredyd Cynhwysol.

Offer Cegin / Arlwyo	Ar gyfer cyfleusterau tai gofal ychwanegol – darperir pryd o fwyd fel rhan o'r cytundeb tenantiaeth. Efallai y bydd angen newid yr offer a'i gynnal a'i gadw o bryd i'w gilydd.
Defnydd personol o wasanaethau cyfleustodau Trydan, Nwy a Dŵr	Mae'r taliadau hyn yn ymwneud ag unrhyw ddefnydd o wasanaethau yn yr annedd a ddosrennir at ddefnydd personol ac o fewn eich cartref eich hun. Nid yw'r costau hyn yn golygu eich bod yn gymwys i dderbyn Budd-dal Tai na Chredyd Cynhwysol.
Costau Cymorth Rheolwr Cynllun	Mae costau'n cynnwys darparu gwasanaethau cymorth cyffredinol o fewn y cynllun.
Staffio : Costau Staffio'r Cynllun	Cyfraniad tuag at staff canolog a llanw dros wyliau.
Offer Cymunedol / Offer Golchi Dillad	Mewn rhai cynlluniau mae offer megis gwasanaethau golchi dillad ar gael i'w defnyddio, felly mae'r gost i'w rhentu yn cael ei dalu.
Costau Gweinyddol / Ffonau Symudol	Costau sy'n gysylltiedig â swyddfa megis biliau ffôn symudol a deunydd gweinyddol.

Os oes angen eglurhad pellach arnoch ar unrhyw un o'r uchod, cysylltwch â'r Uwch Swyddog Tâl Gwasanaeth.